

## CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 13eg o Fedi 2018 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Dewi Jones, Lyn McFadden, Siân Anwyl Jones, Geraint Thomas ac Eryl Owain â'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Claire Roberts a'r Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Estynnwyd croeso i Dylan Williams a chynrychiolwyr eraill o Gyfoeth Naturiol Cymru i drafod atebion i'r broblem o loriau trymion yn defnyddio'r ffordd wrth y Ffatri Wlân. Cafwyd trafodaeth ar yr opsiynau oedd ar gael. Dywedwyd ganddynt y byddai adeiladu pont newydd yn broses hir gan y byddai angen cydweithrediad tirlfeddianwyr a chaniatad y Cyngor Sir.

Roedd CNC yn ffafrio Opsiwn 5, sef gwella ffyrdd oddi mewn i'r goedwig fel y byddai mwy o loriau'n mynd a dod o ffordd Dolwyddelan. Byddai hyn yn arwain at leihâd o tua 50% yn nifer y loriau'r defnyddio'r ffordd ger y Ffatri Wlân.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr a gadawsant y cyfarfod. Wedi trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol mai dewis cyntaf y Cyngor fyddai Opsiwn 4, sef adeiladu pont newydd dros afon Machno rhwng y Ffatri Wlân a'r fynedfa i ffarm Penrhyn. Ond, pe byddai Opsiwn 5 yn lleihau nifer y loriau, yna ni fyddai gwrthwynebiad i Opsiwn 5 fel ateb tymor byr, gan bwysleisio mai Opsiwn 4 yw'r unig ateb tymor hir.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 12fed Gorffennaf 2018 fel rhai cywir, Eryl Owain yn cynnig a Siân Anwyl yn eilio.

### Materion yn codi:

**Toiledau:** Derbyniwyd adroddiad bod cyflwr y toiledau'n foddhaol ond bod angen bin sbwriel a bachyn dal papur tŷ bach. Dywedodd y clerc bod y gwaith o drosglwyddo'r gweithredoedd yn mynd yn ei flaen a dylai gael ei gwblhau'n fuan. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar lanhau'r toiledau wedi iddynt gael eu trosglwyddo, gan ystyried cynnig tâl i fudiadau os oedd aelodau ganddynt a fyddai'n gwirfoddoli. Penderfynwyd cysylltu â chynghorau cymuned Llangernyw a Llansannan i gael gwybod beth yw eu trefniadau hwy.

**Cwyonion am adeiladau:** Nodwyd bod gwaith tacluso'n parhau yn London House. Mae'r Parc Cenedlaethol yn bwriadu delio â'r nifer o gerbydau ym maes parcio hen Westy'r Machno.

**Ffyrdd:** Mynegwyd anfodlonrwydd bod defnydd o ffordd Hafod-y-rhedwydd gan loriau dan contract i Gyfoeth Naturiol Cymru yn achosi difrod ac anghyfleustra. Penderfynwyd cysylltu â CNC i bwysio arnynt i weithredu amodau'r contract cludo coed.

Penderfynwyd gwneud cais i Gyngor Sir Conwy am arwydd gwaharddiad cyflymdra 20 milltir yr awr ger Plas Derwen.

**Addasu Sgubor Bryn Crug yn Lety Gwyliau:** Adroddwyd bod y cais wedi ei ganiatau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Penderfynwyd cysylltu â'r Prif Weithredwr am eglurhâd pellach gan nodi anfodlonrwydd na chymerwyd sylw o farn y Cyngor Cymuned.

**Mynwent yr Eglwys:** Yn dilyn arolwg o'r fynwent, penderfynwyd bod angen gwaith tacluso a lefelu ar y rhan ger y Gofeb Rhyfel. Penderfynwyd cysylltu â phedwar busnes i geisio prisiau am y gwaith.

### Materion Ariannol:

Cyflwynwyd diweddariad o'r sefyllfa ariannol gan y clerc a nodwyd bod digon o arian wrth gefn o hyn i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Sylwadau gan [EO1]:

Sylwadau gan [EO2R1]:

**Materion eraill:**

**Plannu blodau:** Penderfynwyd manteisio ar gynnig i gael bylbiau Cennin Pedr i'w plannu ym Mhenmachno a Cwm.

**Llwybr Blaen-cwm:** Yn dilyn derbyn adroddiad, penderfynwyd bod angen gwneud gwaith clirio a thrwsio ar lwybr Blaen-cwm yng Nghwm Penmachno. Gofynnwyd i'r clerc drefnu.

**Rhwyrstr ar ffordd gyhoeddus:** Penderfynwyd cysylltu efo Cyngor Sir Conwy ynglŷn â casgenni olew ac hen gerbyd ar ffyrdd cyhoeddus.

**Coed Nadolig:** Penderfynwyd cael coed Nadolig i Benmachno a Cwm, a nodwyd bod cais i gael un Cwm Penmachno erbyn 25 Tachwedd.

**Pwyllgor Cinio'r Henoed:** Derbyniwyd cais am gyfraniad ariannol tuag at gostau Cinio Nadolig yr Henoed. Penderfynwyd cyfrannu cost y bus ac i ofyn am fwy o fanylion cyn y cyfarfod nesaf.

**Sgipiau:** Penderfynwyd bod angen archebu dau sgip arall, i Cwm ac i Benmachno.